



Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a
Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

14 Hydref 2019

Annwyl Dai,

Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru)

Yn sgil cyflwyno Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 14 Hydref, amgaeaf gopi o datganiad o fwriad polisi. Darperir y dogfennau hyn i helpu'r Pwyllgor wrth iddo graffu ar y Bil.

Edrychaf ymlaen at ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor maes o law.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir,

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru)

Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth i'w gwneud o dan y Bil hwn.

14 Hydref 2019

BIL Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (INDEMNIAU) (CYMRU)

DATGANIAD O FWRIAD POLISI AR GYFER IS-DDEDDFWRIAETH

1. Mae'r ddogfen hon yn rhoi syniad o'r bwriad polisi presennol ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth y byddai gan Weinidogion Cymru'r pŵer i'w wneud yn rhinwedd y diwygiadau a wnaed i adran 30 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 ("Deddf 2006") gan Fil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemnïadau) (Cymru) ("y Bil"). Fe'i paratowyd er mwyn helpu pwyllgorau wrth graffu ar y Bil ac fe ddylai gael ei ddarllen ar y cyd â'r Bil, y Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef.

Adran 30 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006, fel y'i diwygiwyd gan Adran 1 o'r Bil

2. Prif ddiben y Bil yw diwygio adran 30 o Ddeddf 2006.
3. Mae adran 30, is-adran (1) o Ddeddf 2006 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i sefydlu cynlluniau lle y gall corff a bennir yn is-adran (2) wneud darpariaeth i dalu treuliau yn deillio o golled neu ddifrod i eiddo, neu atebolrwyddau trydydd parti ar gyfer colled, difrod neu anaf sy'n deillio o gyflawni swyddogaethau'r corff sy'n darparu'r cynllun. Mae'r Bil yn mewnosod y diffiniad "cynllun indemniad cydfuddiannol" yn is-adran (1) o adran 30 o Ddeddf 2006 i gwmpasu'r cynlluniau hynny lle mae sawl un o gyrff y gwasanaeth iechyd yn talu eu treuliau a'u hatebolrwyddau trwy gyfuno adnoddau mewn cronfa ar y cyd.
4. Bydd y Bil yn diwygio adran 30 is-adran (2) er mwyn ehangu'r cyrff y gellir eu cynnwys mewn cynlluniau a sefydlir o dan adran 30 o Ddeddf 2006. Mae'r cyrff ychwanegol a fewnosodir yn adran 30(2) yn cynnwys y personau hynny sy'n darparu neu sydd wedi darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol yng Nghymru yn unol â threfniant yn unol â Deddf 2006, yn ogystal â chyrff sy'n darparu, neu sy'n trefnu darparu, neu sydd wedi darparu neu drefnu darparu, gwasanaethau a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd (mae adran 1(3) o'r Bil yn mewnosod paragraffau (f) a (g) newydd yn is-adran (2)).
5. Mae is-adran (8) o adran 1 o'r Bil yn mewnosod is-adrannau 8) i (11) yn adran 30 o Ddeddf 2006 yn rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru ac yn gosod y ffiniau y gall Gweinidogion Cymru arfer y pwerau hynny o'u mewn.
6. Mae is-adran (8) newydd o adran 30 o Ddeddf 2006 yn creu pŵer i Weinidogion Cymru sefydlu, trwy reoliadau, gynllun y gallant indemnio cyrff a restrir yn is-adran 2 o dano yn uniongyrchol (h.y. lle nad yw'r cynllun yn golygu creu pwll cydfuddiannol o gyfraniadau er mwyn talu atebolrwyddau'r dyfodol yn achos ei aelodau. Mae'r Bil yn enwi'r math hwn o gynlluniau yn "gynlluniau indemniad uniongyrchol".
7. Yn rhinwedd is-adran (8) newydd o adran 30 o Ddeddf 2006, ni chaiff cynlluniau indemniad uniongyrchol indemnio'r cyrff hynny a restrir yn is-adran (2) o adran 30 (fel y'i diwygiwyd gan adran 1(3)(c) o'r Bil) ond am dreuliau sy'n deillio o golled neu ddifrod i'w heiddo, neu i fodloni atebolrwyddau i drydydd partïon am

golled, difrod neu anaf sy'n deillio o'r ffaith bod y cyrff hyn yn cyflawni eu swyddogaethau.

8. Mae is-adran (9) newydd o Ddeddf 2006 yn darparu rhestr nad yw'n derfynol o ba reoliadau y gall sefydlu cynllun indemniad uniongyrchol eu pennu, er enghraifft, pwy sy'n berson cymwys a pha atebolrwyddau a gynhwysir gan y cynllun.

Cynllun Atebolrwyddau Presennol

9. Ar 14 Mai 2018, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd y byddai Llywodraeth Cymru'n cyflwyno cynllun a gefnogir gan y wladwriaeth i ddarparu sicrwydd indemniad esgeuluster clinigol i ddarparwyr gwasanaethau Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru.
10. Mae un o elfennau'r cynllun hwnnw'n golygu bod Llywodraeth Cymru'n cytuno i ysgwyddo cyfrifoldeb dros ystyried cwmpasu atebolrwyddau ar gyfer hawliadau esgeuluster clinigol yn erbyn Ymarferwyr Cyffredinol a oedd yn aelodau o Sefydliad Amddiffyn Meddygol yr adroddwyd arnynt, neu yr aed iddynt ond nad adroddwyd arnynt, cyn 1 Ebrill 2019 yn gyfnewid am gyfran o asedau'r Sefydliad Amddiffyn Meddygol. Yr enw ar hyn yw Cynllun Atebolrwyddau Presennol (ELS).
11. Pan fydd y Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol, mae Gweinidogion Cymru yn rhag-weld defnyddio'r pŵer yn adran 30 o Ddeddf 2006 (fel y'i diwygiwyd) i wneud y rheoliadau y mae eu hangen i fod yn sail i'r ELS. Byddai'r rheoliadau hyn yn gosod y ffiniau y bydd Gweinidogion Cymru'n ymdrin â hawliadau am esgeuluster clinigol hanesyddol o'u mewn yr adroddwyd arnynt, neu yr aed iddynt ond nad adroddwyd arnynt, cyn 1 Ebrill 2019 i MDO y maent wedi dod i gyntundeb â hwy ('MDO sy'n cymryd rhan').

Cynnwys Rheoliadau ELS

12. Bydd angen i reoliadau ELS sefydlu cynlluniau indemniad uniongyrchol yn nodi sut y bydd Gweinidogion Cymru'n ystyried indemnio hawliadau esgeuluster clinigol a wneir yn erbyn Ymarferwyr Cyffredinol o ganlyniad i esgeuluster a ddigwyddodd cyn 1 Ebrill 2019 (yr ELS).
13. Byddai angen i unrhyw indemniad a ddarperir gwmpasu atebolrwyddau esgeuluster clinigol Ymarferwyr Cyffredinol (ac eraill sy'n gweithio mewn lleoliad ymarfer cyffredinol) yr adroddwyd arnynt, neu'r aed iddynt ond nad adroddwyd arnynt, cyn 1 Ebrill 2019 mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau'r GIG a ddarperir gan ymarfer cyffredinol ac ar adeg pan oedd polisi o sicrwydd indemniad ag MDO sy'n cymryd rhan yn bodoli.
14. Rhagwelir y bydd ELS yn gymwys o 1 Ebrill 2020 mewn perthynas ag atebolrwyddau cymwys sydd o fewn cwmpas. Mae hyn yn golygu o'r dyddiad hwnnw, y caiff Ymarferwyr Cyffredinol ac eraill a oedd yn darparu gwasanaethau'r GIG mewn lleoliad ymarfer cyffredinol ac a oedd â sicrwydd

indemniad ag MDO sy'n cymryd rhan eu hindemnio o dan yr ELS mewn perthynas ag atebolrwyddau cymwys. Ar hyn o bryd, credir ei bod yn annhebygol y byddai unrhyw ofynion aelodaeth neu brosesau ffurfiol eraill y byddai angen eu cwblhau er mwyn i indemniad o dan yr ELS fod yn gymwys.

15. Byddai'r ELS yn gynllun 'a seilir ar ddigwyddiadau' sy'n golygu, hyd yn oed os nad yw person bellach yn ymarfer neu'n gweithio mewn practis cyffredinol, y caiff atebolrwyddau yr aed iddynt tra roeddent yn ymarfer ac yn dal polisi ar gyfer sicrwydd indemniad proffesiynol ag MDO sy'n cymryd rhan eu cwmpasu.
16. Byddai angen i'r rheoliadau wneud darpariaeth yn diffinio 'personau cymwys' ac 'atebolrwyddau cymwys'. Byddai angen i'r rheoliadau bennu'r atebolrwyddau a gwmpesir o dan yr ELS. Byddai'r rhain yn ymwneud yn bennaf ag atebolrwyddau esgeuluster clinigol sy'n deillio o dorri dyletswydd gofal sy'n ddyledus i drydydd parti gan berson cymwys mewn cysylltiad â gweithgareddau'r GIG sydd o fewn cwmpas yr ELS.
17. Prif wasanaethau'r GIG sy'n debygol o fod o fewn cwmpas yr ELS yw gwasanaethau meddygol sylfaenol a fyddai wedi cael eu darparu o dan drefniadau a chytundebau contractiol a wneir o dan Ran 4 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 neu'r ddeddfwriaeth a'i rhagflaenodd.
18. Mae'r ELS hefyd yn debygol o gwmpasu atebolrwyddau esgeuluster clinigol yr eir iddynt mewn perthynas â gwasanaethau eraill y GIG a ddarperir gan ymarfer cyffredinol, ond dim ond os prif weithgarwch darparwr ar y pryd oedd darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol. Lle bo hyn yn wir, y bwriad yw i'r ELS gwmpasu Ymarferwyr Cyffredinol ac eraill yn y practis Ymarferwyr Cyffredinol a oedd yn cyflawni gweithgareddau mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau'r GIG. Byddai'r sicrwydd hwnnw'n ymestyn i atebolrwyddau esgeuluster clinigol hanesyddol sy'n deillio o'r gweithgareddau hyn, ar yr amod bod gan y practis Ymarferwyr Cyffredinol sicrwydd indemniad â'r MDO sy'n cymryd rhan adeg y digwyddiad.
19. Bydd angen i reoliadau ELS nodi sut y câi unrhyw daliadau eu gwneud allan o'r cynllun, gan gynnwys pennu o dan ba amgylchiadau na fyddai unrhyw daliad yn cael ei wneud o dan yr ELS.
20. Mae'r rheoliadau hefyd yn debygol o gynnwys darpariaethau i alluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth a chymorth i Weinidogion Cymru at ddibenion yr ELS, yn ogystal â chreu dyletswydd ar Weinidogion Cymru i drefnu bod gwybodaeth ar gael am gyfarwyddydau neu ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru at ddibenion yr ELS.

Amseriad y Rheoliadau

21. Mae adran 2(2) o'r Bil yn darparu y daw'r Bil i rym ar y diwrnod y caiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol.
22. Bwriedir i reoliadau ELS gael eu gwneud a chael eu gosod gerbron y Cynulliad pan ddaw'r Bil yn Ddeddf, gan ddod i rym ar 1 Ebrill 2020. Bydd hyn yn sicrhau

bod Gweinidogion Cymru'n diogelu parhad sicrwydd indemniad proffesiynol ar gyfer atebolrwyddau hanesyddol Ymarferwyr Cyffredinol ar y cyfle cyntaf posibl, gan sicrhau yr un pryd fod y gwaith o ddarparu rheoliadau ELS yn cydfynd â chynllun Lloegr cyn gynted ag y bydd yn rhesymol bosibl o gofio'r angen am ddeddfwriaeth sylfaenol. Yn ogystal, mae'n galluogi rheoliadau ELS i ddod i rym ar 1 Ebrill yn unol â threfniadau contractiol ELS sy'n destun negodiadau parhaus ar hyn o bryd.

Ymgynghori ar is-ddeddfwriaeth

23. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys is-ddeddfwriaeth pan fydd o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny. Penderfynir ar yr adeg briodol a oes angen ymgynghori ac os felly union natur a graddau unrhyw ymgynghoriad, mewn perthynas ag arfer y pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn unol â Deddf 2006 o ganlyniad i'r diwygiadau a wnaed gan y Bil.